# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**2009 mccc 1**

## RHAN 3

### GWASANAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADDYSG, HYFFORDDIANT A SGILIAU

*Llwybrau Dysgu*

### 43 Y ddogfen llwybr dysgu

(1) Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu dogfen sy'n cofnodi ei lwybr dysgu i ddisgybl perthnasol neu fyfyriwr perthnasol ("dogfen llwybr dysgu").

(2) Yn is-adran (1), ystyr "llwybr dysgu" disgybl neu fyfyriwr yw—

(a) y cyrsiau astudio (os oes rhai) y mae gan y disgybl neu'r myfyriwr hawlogaeth i'w dilyn o dan adran 116E(1) o Ddeddf Addysg 2002 neu adran 33F(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000; a

(b) y gwasanaethau cymorth i ddysgwyr (os oes rhai) sydd i'w darparu i ddisgybl neu fyfyriwr yn rhinwedd adran 40 o'r Mesur hwn.

(3) Rhaid i'r ddogfen llwybr dysgu—

(a) cael ei darparu o fewn cyfnod amser rhesymol yn dilyn hawlogaeth sy'n codi yn y modd a ddisgrifir yn is-adran (2)(a) neu benderfyniad sy'n cael ei wneud i ddarparu gwasanaethau fel a ddisgrifir yn is-adran (2)(b); a

(b) cael ei diwygio neu ei hailddyroddi o fewn cyfnod amser rhesymol—

(i) ar ôl amrywiad yn yr hawlogaeth honno neu'r penderfyniad hwnnw; neu

(ii) ar ôl i'r hawlogaeth honno godi neu i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud.

(4) Mae'r ddyletswydd i ddarparu dogfen llwybr dysgu o dan is-adran (3)(a) yn ddyletswydd—

(a) yn achos disgybl perthnasol, ar bennaeth ysgol a gynhelir y disgybl pan fo achlysur a ddisgrifiwyd yn is-adran (3)(a) yn digwydd; a

(b) yn achos myfyriwr perthnasol, ar bennaeth sefydliad y myfyriwr pan fo achlysur a ddisgrifiwyd yn is-adran (3)(a) yn digwydd.

(5) Mae'r ddyletswydd i ddiwygio neu ailddyroddi dogfen llwybr dysgu o dan is-adran (3)(b) yn ddyletswydd—

(a) yn achos disgybl perthnasol, ar bennaeth ysgol a gynhelir y disgybl pan fo achlysur a ddisgrifiwyd yn is-adran (3)(b) yn digwydd; a

(b) yn achos myfyriwr perthnasol, ar bennaeth sefydliad y myfyriwr pan fo achlysur a ddisgrifiwyd yn is-adran (3)(b) yn digwydd.

(6) Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir a phennaeth sefydliad roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon.

## 44 Llwybrau dysgu: dehongli

Yn yr adran hon ac yn adran 43—

mae i "disgybl cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered pupil" yn adran 434 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56);

ystyr "disgybl perthnasol" ("*relevant pupil*") yw un o ddisgyblion cofrestredigysgol a gynhelir;

ystyr "myfyriwr perthnasol" ("*relevant student*") yw person—

(a) sy'n cael y rhan fwyaf o'i addysg mewn sefydliad, neu o dan drefniadau a wnaed gan gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw; a

(b) nad yw wedi cyrraedd pedwar ar bymtheg oed neu unrhyw oedran yn ddiweddarach yn ei oes a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "pennaeth sefydliad" ("*principal*") yw pennaeth neu brifathro neu brifathrawes arall sefydliad;

ystyr "sefydliad" ("*institution*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, ac, o ran myfyriwr perthnasol, mae'n golygu'r sefydliad y mae ei gorff llywodraethu'n gyfrifol am ddarparu, neu drefnu i ddarparu, y cyfan neu'r rhan fwyaf o addysg y myfyriwr perthnasol hwnnw;

mae i "sefydliad yn y sector addysg bellach" yr ystyr a roddir i "institution within the further education sector" yn Neddf Addysg 1996 (p.56); ac

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw—

(a) unrhyw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru, neu

(b) unrhyw ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig a gynhelir gan awdurdod addysg lleol yng Nghymru ac nad yw'n wedi'i sefydlu mewn ysbyty,

ac, o ran disgybl perthnasol, mae'n golygu'r ysgol a gynhelir y mae'n ddisgybl cofrestredig ohoni.